**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg
Lesley Griffiths
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

22 Mai 2024

## Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd

Annwyl Jeremy a Lesley,

Diolch am ddod i **gyfarfod y Pwyllgor ar 15 Mai 2024** i roi tystiolaeth ar gyfer ein hymchwiliad ar **ddiwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd**. Roeddem yn ddiolchgar am y dystiolaeth a ddarparwyd gennych yn ystod ein sesiwn, ac rydym yn ysgrifennu atoch i ofyn am rywfaint o wybodaeth ychwanegol.

1. Yn ystod y cyfarfod, siaradodd Jeremy am orfod defnyddio pob cyfle posibl i hyrwyddo blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU. Er mwyn cynorthwyo ein dealltwriaeth o faint o gyswllt sydd wedi bod rhwng gweinidogion a swyddogion lle mae trafodaethau o'r fath wedi'u cynnal, byddem yn ddiolchgar pe gallem gael y wybodaeth ganlynol:

- Rhestr o'r cyfarfodydd rhynglywodraethol (gan gynnwys y grŵp rhyng-weinidogol a chyfarfodydd dwyochrog), a chyfarfodydd rhwng swyddogion lle mae'r materion hyn wedi eu codi.
- Amlinelliad o'r hyn a drafodwyd ym mhob cyfarfod.

2. Dywedodd Lesley, yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiwylliant a'r Diwydiannau Creadigol, ei bod wedi dod yn amlwg iawn, yn gyflym iawn, fod blaenoriaethau gwahanol gan y pedair Llywodraeth. A allech chi amlinellu beth yw

blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi'r sector diwylliant ar ôl Brexit, yn ogystal â sut maen nhw'n wahanol i rannau eraill o'r DU?

3. Os bydd y cyfle’n codi yn ystod yr adolygiad gweithredu sydd ar ddod i ailedrych ar y trefniadau a nodir yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a’r UE, beth fyddai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru?

4. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid mynd i'r afael â'r materion y mae’r sector diwylliant yn eu hwynebu yn y tymor byr, canolig a hir?

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb erbyn 20 Mehefin 2024.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.